**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel nad ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1793) (Cymru) 2025**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), a chaiff ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel nad ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1793) (Cymru) 2025.

**Sarah Murphy AS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
6 Tachwedd 2025

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1. Diben Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel nad ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1793) (Cymru) 2025 yw diwygio deddfwriaeth bwyd a fewnforir y gwnaeth y DU ei dargadw wrth ymadael â'r UE.

2. Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) a gymathwyd 2019/1793 ar y cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol a mesurau brys sy'n llywodraethu mynediad nwyddau penodol o drydydd gwledydd penodol i'r UE ("Rheoliad 2019/1793") yn gosod darpariaethau sy'n gymwys i rai nwyddau bwyd a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn dod o anifeiliaid sydd â risg uwch wrth iddynt ddod i mewn i Brydain Fawr.

3. Mae'r Atodiadau i'r Rheoliad hwnnw'n cynnwys rhestrau o nwyddau bwyd a bwyd anifeiliaid sydd naill ai'n destun cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol, yn destun mesurau brys neu'n destun ataliad mynediad i Brydain Fawr. Mae'r offeryn yn gwneud newidiadau i'r Atodiadau y gellir eu crynhoi'n fras fel a ganlyn: nwyddau sydd wedi'u tynnu o'r rheolaethau; nwyddau sy'n destun llai o reolaethau; nwyddau sy'n destun mwy o reolaethau; a nwyddau sydd angen rheolaethau newydd.

4. Mae'r offeryn hefyd yn diweddaru sut y cyflwynir y codau a ddefnyddir i nodi'r nwyddau sy'n destun rheolaethau, a hynny er mwyn cyd-fynd â system Tariff Integredig y DU, ac yn newid troednodiadau'r tabl.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

5. Dim

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

6. Mae Erthygl 12 o Reoliad 2019/1793 yn ei gwneud yn ofynnol i'r "awdurdod priodol" adolygu'r rhestrau a nodir yn Atodiadau 1 a 2 o'r Rheoliad yn rheolaidd, o leiaf bob chwe mis, a hynny er mwyn ystyried gwybodaeth newydd sy'n ymwneud â risgiau a diffyg cydymffurfio.

7. Rhoddir y pwerau i wneud yr offeryn hwn gan Erthyglau 47(2)(b), 54(4)(a) a (b) a 144(6)(a) o Reoliad (UE) a gymathwyd 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gynhelir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael eu cymhwyso ("Rheoliad 2017/625" – y Rheoliad rheolaethau swyddogol); ac Erthyglau

53(1)(b) a 57a(6)(a) o Reoliad a gymathwyd (CE) Rhif 178/2002 sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau sy'n ymwneud â materion diogelwch bwyd ("Rheoliad 178/2002" – y Rheoliad cyfraith bwyd gyffredinol).

8. Rhoddir y pwerau hyn i'r "awdurdod priodol". Yn achos Cymru, yr awdurdod priodol yw Gweinidogion Cymru yn rhinwedd Erthygl 3(2A) o Reoliad 2017/625, ac Erthygl 3(19) o Reoliad 178/2002.

9. Mae'r offeryn hwn yn sicrhau parhad system weithredol o reolaethau swyddogol ac mae'n adlewyrchu lefel gyfredol y risg a berir gan nwyddau bwyd a bwyd anifeiliaid risg uwch a fewnforir nad ydynt yn dod o anifeiliaid.

10. Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'i heffaith fwriadedig

11. Mae adolygiad statudol o Reoliad 2019/1793 wedi'i gynnal gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) i sicrhau bod nwyddau risg uwch yn parhau i fod yn destun rheolaethau uwch wrth iddynt ddod i mewn i Brydain Fawr drwy Safleoedd Rheolaethau'r Ffin (BCPs). Mae rheolaethau o'r fath yn cynnwys archwiliadau dogfennol, adnabod a ffisegol, gan gynnwys samplu mewn safleoedd BCPs.

12. Mae'r offeryn yn cymryd lle Atodiadau 1 a 2. Mae'r Atodiadau a amnewidiwyd yn cynnwys 14 o newidiadau sylweddol unigol i'r nwyddau o fewn y rhestrau a geir yn Atodiad 1 a thabl 1 o Atodiad 2 i Reoliad 2019/1793, ac maent wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

- Mae 1 nwydd (pupurau melys o Tsieina) wedi'i dynnu o gwmpas y rheolaethau

- Bydd 2 nwydd (jacffrwyth o Falaysia; ocra o Fietnam) yn destun lefel is o reolaethau

- Bydd 4 nwydd (planhigyn wy o Weriniaeth Dominica; pupurau o'r genws *Capsicum* o Uganda; ocra a choed drymffyn (*Moringa oleifera*) o India) a 3 grŵp o nwyddau (nytmeg, mês a chardamoms; hadau anis, rhosti, ffenigl, coriander, cwmin neu garwe ac aeron meryw; sinsir, saffrwm, tyrmerig (*curcuma*), teim, dail llawryf, cyri a sbeisys eraill o India) yn destun lefel uwch o reolaethau

- Bydd 2 nwydd newydd (papaws o Frasil; pitahaya o Wlad Thai) ac 1 grŵp nwyddau newydd (cnau daear o Baraguay) yn destun rheolaethau am y tro cyntaf

- Mae codau nwyddau 1 grŵp nwyddau (hadau *sesamwm* o Nigeria, Syria, Twrci, Ethiopia, India, Swdan ac Uganda) wedi cael eu diweddaru i ymestyn yr ystod o gynhyrchion a gwmpesir.

13. Yn ogystal â'r rhestrau wedi'u diweddaru yn Atodiadau 1 a 2, mae'r offeryn yn diwygio cyflwyniad y codau a ddefnyddir i nodi'r bwyd a'r bwyd anifeiliaid sy'n destun rheolaethau. Mae codau a gyflwynwyd yn flaenorol fel "Enw Cyfunol" hyd at 8 digid ac yna "is-adran TARIC" 2 ddigid ar wahân wedi'u diweddaru, a bellach ceir un cod hyd at 10 digid sydd wedi'i ailenwi'n "god nwyddau". Mae'r rhestrau wedi'u cywiro i gael gwared ar y marc "ex" o nwyddau penodol, nad yw'n ofynnol yn dilyn mabwysiadu system Tariff Integredig y DU ar ôl ymadael â'r UE. Mae'r Atodiadau bellach wedi'u diweddaru i alinio cyflwyniad y codau nwyddau â system Tariff Integredig y DU.

14. Gan fod y newidiadau hyn yn weinyddol eu natur, ac yn diwygio sut y caiff nwyddau eu hadnabod yn hytrach na newid cwmpas y bwyd a'r bwyd anifeiliaid sy'n destun rheolaethau, ni chafodd cwestiwn penodol ei gynnwys yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, er bod yr ymatebwyr wedi gweld y fformat diwygiedig. Gwneir diweddariadau i droednodiadau tabl ac i gyfeiriadau'r troednodiadau tabl hefyd, i ychwanegu troednodiadau lle mae plaladdwyr newydd wedi'u nodi, neu i ddileu troednodiadau lle nad yw plaladdwyr yn sylweddau sy'n peri pryder mwyach.

15. Mae'r offeryn yn gymwys i Gymru, a bydd offerynnau cyfatebol yn cael eu gwneud yn Lloegr a'r Alban, gan sicrhau, unwaith y bydd yr Offerynnau Statudol wedi dod i rym, y bydd deddfwriaeth ar waith i sicrhau bod defnyddwyr ym Mhrydain Fawr yn cael eu diogelu rhag bwyd a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn dod o anifeiliaid sy'n peri'r risg uchaf trwy reolaethau ar ffin Prydain Fawr.

## 5. Ymgynghoriad

16. Cynhaliwyd ymgynghoriad 6 wythnos ledled Cymru a Lloegr rhwng 26 Chwefror a 9 Ebrill 2025, gydag ymgynghoriad cyfochrog yn yr Alban. Daeth 4 ymateb i law gan randdeiliaid yn Lloegr, ac mae'r ASB wedi cyhoeddi'r ymateb ffurfiol i'r ymatebion hyn ar ein gwefan. Ni chafwyd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriadau gan randdeiliaid yng Nghymru na'r Alban. Amlinellwyd manylion yr ymatebion i'r ymgynghoriad mewn Nodyn Briffio a anfonwyd at weinidogion Cymru ym mis Medi 2025.

17. Ystyriwyd ymatebion rhanddeiliaid yn drylwyr gan yr ASB ac FSS. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng y tair gwlad yn unol â'r Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon posib.

18. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r cynigion deddfwriaethol o ganlyniad i'r ymgynghoriad, er bod eglurhad ar gwmpas y nwyddau dan sylw wedi'i ddarparu yn yr ymateb i'r ymgynghoriad.

19. O dan rwymedigaethau Cytundeb Iechydol/Ffytoiechydol (SPS) Sefydliad Masnach y Byd (WTO) y DU, cyhoeddwyd hysbysiad Sefydliad Masnach y

Byd ynghylch y diwygiadau arfaethedig i reolaethau mewnforio ar 23 Mehefin 2025 a daeth i ben ar 24 Awst 2025.

20. Ni ddaeth unrhyw sylwadau i law gan unrhyw Aelodau o'r WTO yn ystod y cyfnod hysbysu, ac felly, ni wnaed unrhyw newidiadau i'r cynigion.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

21. Ni wnaeth yr ASB nodi unrhyw effeithiau sylweddol, felly ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

22. Nid yw Rheoliad 2019/1793 yn newydd, ac mae deddfwriaeth sy'n rheoli mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid risg uwch wedi bod mewn grym yn y DU ers blynyddoedd lawer. Pan oedd y DU yn aelod o'r UE, diwygiodd y Comisiwn Ewropeaidd y ddeddfwriaeth a chyfrannodd y DU at hyn drwy gyfarfodydd gweithgor ddwywaith y flwyddyn. Ym Mhrydain Fawr, gwnaed diwygiad i Reoliad 2019/1793 ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2024 trwy Offerynnau Statudol ar wahân yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

23. Mae'r nwyddau a restrir yn Atodiad I i Reoliad 2019/1793 yn cael eu rheoli dros dro er mwyn helpu i bennu a allai fod angen mesurau llymach yn ddiweddarach. O'r herwydd, mae unrhyw effeithiau yn debygol o fod yn rhai byrdymor.

24. Mae'r nwyddau a geir yn Atodiad 2 i Reoliad 2019/1793 yn fwy sefydlog eu natur, ond cânt eu cynnwys yn yr adolygiad a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Unwaith y bydd lefel y risg yn newid, bydd lefel y rheolaeth yn cael ei diwygio.

25. Mae'r nwyddau a restrir yn yr Atodiadau i Reoliad 2019/1793 wedi'u seilio ar risg, ac felly maent yn ymwneud â'r wlad neu'r gwledydd tarddiad penodol yn unig. Gall mewnforwyr Prydain Fawr, felly, fewnforio o wledydd eraill nad yw eu cynhyrchion wedi'u nodi fel rhai 'risg uchel' a lle nad yw rheolaethau mewnforio'n gymwys.

26. Mae'n debygol y bydd costau ymgyfarwyddo bach i awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd mewn perthynas â'r diweddariadau rheolaidd. Gellir adennill costau cynnal rheolaethau swyddogol ar y ffin trwy godi ffioedd a thaliadau. Dim ond trwy Safleoedd Rheolaethau'r Ffin sydd eisoes wedi'u sefydlu ym Mhrydain Fawr y gellir mewnforio nwyddau risg uchel. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw BCPs dynodedig yng Nghymru, felly ni all y nwyddau hyn gael eu mewnforio'n uniongyrchol i Gymru o drydydd gwledydd. Nid yw'r ASB wedi nodi unrhyw achosion o nwyddau o'r fath yn cael eu mewnforio i Brydain Fawr drwy Gymru.